

Deall canllawiau NICE

Gwybodaeth i bobl sy'n defnyddio
qwasanaethau'r GIG

Trin aniwrysmau y gar yn y goes drwy osod pibell rwyll

*Mae arweiniad
Techlechyd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ynghylch pryd
a sut y gellir
defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio pibell rwyll (neu stent) yn y GIG i drin pobl sydd ag aniwrysmau y gar. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros lechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechyd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau'n cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio aniwrysmau y gar na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi am y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 8.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Er nad oes unrhyw bryderon mawr ynghylch diogelwch y driniaeth hon, ceir ansicrwydd o hyd o ran pa mor dda y mae'n gweithio yn yr hirdymor. Os yw meddyg am ddefnyddio pibell rwyll i drin aniwrysmau y gar, dylent sicrhau y cymerir camau ychwanegol i egluro'r risgiau posibl a'r ansicrwydd am ba mor dda mae'n gweithio yn yr hirdymor. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i'r driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Dylai tîm gofal iechyd yn cynnwys llawfeddyg fasgwlaidd a radiolegydd ymyriadau sydd wedi cael hyfforddiant ac sydd â diddordeb arbenigol yn y dechneg benderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon.

Mae NICE yn annog mwy o bobl i wneud gwaith ymchwil ar y driniaeth hon ac efallai y bydd yn edrych ar y driniaeth hon eto os daw rhagor o wybodaeth i'r amlwg.

Efallai nad hon yw'r unig driniaeth bosibl ar gyfer aniwrysmau y gar.

Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha driniaethau eraill sydd ar gael.

Trin aniwrysmau y gar yn y goes drwy osod pibell rwyll

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'atgyweirio aniwrysmau y gar yn endofasgwlaidd'. Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Rhydweili'r gar yw'r bibell ar gefn y ben-glin sy'n cario gwaed i rannau isaf y goes a'r droed. Mae aniwrysm yn chwydd sy'n debyg i falŵn a achosir gan wendid yn wal y bibell waed. Gall aniwrysmau yn rhydweili'r gar olygu bod y rhydweili'n cael ei blocio neu'n ceulo, neu gall fyrstio, a

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 259

bydd unrhyw un o'r rhain yn cyfyngu ar lif y gwaed i'r goes. Un o'r triniaethau cyffredin ar gyfer y cyflwr hwn yw cysylltu pibell waed iach a gymerir o ran arall o'r corff â rhydveli'r gar fel bod llif y gwaed yn dargyfeirio'r rhan o'r rhydveli sydd wedi blocio.

Yn y driniaeth newydd, gyda'r claf o dan anesthesia lleol neu gyffredinol, gwneir toriad drwy'r croen ac i mewn i rydweli yn y werddyr (rhydveli'r forddwyd). Gan ddefnyddio rheolaeth pelydr-X i arwain gwifren denau a phibell plastig tenau (neu gathetr) i lawr y rhydveli, caiff pibell rwyll ei gosod er mwyn ffurfio sianel newydd i lawr drwy ganol yr aniwrysm. Mae'r stent yn galluogi'r gwaed i lifo'n lân drwy'r sianel ganolig i rannau isaf y goes heb gyffwrdd â'r dorthen waed yn yr aniwrysm amgylchynol ac mae'n atal wal y rhydveli rhag ymestyn ymhellach.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig stentau i chi ar gyfer aniwrysmau y gar, dylai ddweud wrthyfch fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth fydd yn digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras isod o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn un astudiaeth nid oedd unrhyw wahaniaeth mewn cyfradd clirder (neu pa mor 'agored' oedd y bibell waed) ar ôl gosod y stent (84%, neu 36 allan o 43 o gleifion) o gymharu â gwaith atgyweirio agored (85%, neu 99 allan o 116 o gleifion) ar ôl blwyddyn. Dangosodd astudiaeth arall, o 43 o gleifion, nad oedd gwahaniaeth rhwng y ddwy driniaeth ar ôl dwy flynedd (83% ar gyfer stentau ac 88% ar gyfer gwaith atgyweirio agored).

Mewn astudiaeth o 43 o bobl, cafodd 15 o aniwrysmau eu trin gyda stentau a arweiniodd at gyfradd llwyddiant o 83% o gymharu ag 88% ar ôl cael eu trin drwy lawdriniaeth agored.

Mewn astudiaeth arall o 50 o gleifion a oedd yn defnyddio stentau, achubwyd 55 allan o 57 o goesau oedd ag aniwrysmau. Mewn astudiaeth o 42 o bobl lle roedd 21 o gleifion wedi cael eu trin drwy osod stent, roedd angen i 3 gael gwaith atgyweirio agored gan fod y stent wedi blocio pan gawsant archwiliad 47 mis ar ôl y driniaeth ar gyfartaledd.

Yn yr astudiaeth o 50 o gleifion, roedd 9 allan o 57 o aniwrysmau wedi blocio. Cafodd dau eu trin gyda thrombolysis (lle defnyddir cyffuriau i ddadelfennu'r torthenni gwaed), cafodd bump eu trin drwy lawdriniaeth ddargyfeiriol agored gan ddefnyddio rhydweili'r forddwyd, ac nid oedd gan un claf unrhyw symptomau ac ni chafodd ei drin. Bu'n rhaid torri'r goes i ffwrdd yn achos un claf.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y ffactorau llwyddiant allweddol yn cynnwys trin yr aniwrysm, atal thrombosis (torthenni gwaed) ac atal rhydweiliau eraill rhag cael eu blocio yn yr hirdymor, atal rhwygiadau, ac achub y goes.

Risgiau a phroblemau posibl

Cafodd y stent ei flocio gan dorthenni gwaed y diwrnod canlynol yn achos 2 allan o 21 o gleifion a gafodd y driniaeth mewn un astudiaeth. Roedd angen triniaeth bellach ar y ddau ohonynt (roedd angen llawdriniaeth agored ar un ohonynt). Yn yr astudiaeth o 33 o aniwrysmau (29 o gleifion), ffurfiodd torthenni gwaed mewn dau aniwrysm o fewn 24 awr o'r driniaeth. Cafodd y ddau aniwrysm eu trin yn llwyddiannus. Gwelwyd bod gan bedwar claf arall yn yr astudiaeth hon dorthenni gwaed yn yr asesiad dilynol.

Yn yr astudiaeth o 60 o gleifion torrodd y stent mewn 3 allan o 73 o aniwrysmau, gan achosi rhwystrau mewn dau achos. Symudodd y stent o'i le gwreiddiol mewn 9 allan o 73 o aniwrysmau, ac mewn 4 o'r 57 o driniaethau yn yr astudiaeth o 50 o gleifion. Mewn 2 allan o 73 o driniaethau, roedd angen triniaeth bellach oherwydd bod y bibell waed wedi culhau.

Yn yr astudiaeth o 50 o gleifion, roedd gan un claf bibell waed wedi blocio yn is i lawr ar y goes, a bu'n rhaid torri'r goes i ffwrdd.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod y problemau posibl yn cynnwys y stent yn blocio a fyddai'n arwain at ddiffyg ocsigen yn y goes, torthenni gwaed yn blocio'r stent, gwaed yn gollwng i sach yr aniwrysm, a gwaedu lle caiff y cathetr ei osod. Mewn

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 259

egwyddor, gallai'r problemau eraill gynnwys y stent yn cael ei heintio, a'r aniwrysm yn ehangu neu'n rhwygo.

Rhagor o wybodaeth am aniwrysmau

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi cyngor a chymorth pellach i chi. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar aniwrysmau, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechyd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon am 'grafftiad stent endofasgwlaidd ar gyfer aniwrysmau y gar'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG259

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8406-0

N2562 1P April 11

© National Institute for Health and Clinical Excellence. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.